

Hysbysiad Preifatrwydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cadw Eich Gwybodaeth yn Ddiogel [Diweddarwyd ddiwethaf: Tachwedd 2023]

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar gyfer Swyddogaethau Cynllunio Statudol ac Anstatudol

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn i roi gwybod i chi sut y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gofalu am eich gwybodaeth bersonol mewn perthynas â Cheisiadau Cynllunio, gan gynnwys gweinyddu'r broses monitro, apeliadau a gwrthwynebiadau ar y cyd â Phenderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd, Cymru, ymateb i ymholiadau cyn ymgeisio statudol ac anstatudol ac ymholiadau datblygiadau a ganiateir, ymateb i farnau sgrinio a chwmpasu ac ymchwilio i faterion gorfodi posibl.

Mae data personol a brosesir at y dibenion hyn yn cynnwys:

- Y wybodaeth a ddywedwch wrthym amdanoch chi'ch hun
- Gwybodaeth rydym yn ei dysgu amdanoch chi drwy eich cael chi fel cwsmer neu wrth gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio fel awdurdod cyhoeddus yn ymwneud â materion Cynllunio
- Y dewisiadau a roddwch i ni ynghylch pa farchnata neu wybodaeth am yr Awdurdod yr hoffech i ni ei ddarparu i chi.

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut rydym yn gwneud hyn ac yn dweud wrthyf am eich hawliau preifatrwydd a sut mae'r gyfraith yn eich diogelu. Gall yr hysbysiad hwn newid o bryd i'w gilydd, felly gwiriwch ein gwefan yn achlysurol i sicrhau eich bod yn hapus ag unrhyw newidiadau.

Pwy ydyn ni

Crëwyd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel awdurdod lleol pwrpas arbennig annibynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf).

Gallwch ddarganfod mwy amdanom ni [yma](http://yma.gov.uk).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gael rhagor o fanylion am sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data.

DPO@pembrokeshirecoast.org.uk

01646 624800

Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn:

Swyddog Diogelu Data
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi'i gofrestru fel Rheolydd Data gyda'r ICO (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth). Rhif cofrestru: Z6910336.

Sut mae'r gyfraith yn eich diogelu

Mae'ch preifatrwydd wedi'i ddiogelu gan y gyfraith ac mae'r adran hon yn esbonio sut mae hynny'n gweithio.

Rydym yn nodi sut rydym yn bodloni mesurau atebolrwydd yn y gyfraith a sut rydym yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel yn ein Polisi Diogelu Data.

Eich hawliau chi

O dan reoliadau diogelu data mae gennych yr hawliau canlynol:

1. Yr hawl i gael gwybod
2. Yr hawl i fynediad
3. Yr hawl i gywiro
4. Yr hawl i ddileu
5. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
6. Yr hawl i gludadwyedd data
7. Yr hawl i wrthwynebu
8. Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae sail gyfreithlon prosesu yn dylanwadu ar ba hawliau sydd ar gael i'r unigolyn.

Y data rydym yn ei gasglu

Mae'r data personol a gasglwn amdanoch yn dibynnu ar y diben y'i cesglir ar ei gyfer. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn, dyddiad geni, cyfeiriad e-bost yn ogystal ag unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen i gyflawni ceisiadau cynllunio ac unrhyw weithgarwch cynllunio cysylltiedig.

Mae'n bosibl y byddwn yn casglu gwybodaeth personol amdanoch chi neu'ch busnes o'r ffynonellau hyn:

Data a roddwch i ni:

- Pan fyddwch yn llenwi ffurflen gais cynllunio, yn ymostwng i gyflawni amodau cynllunio, yn cyflwyno apêl neu wrthwynebiad neu'n darparu gohebiaeth fel adroddiadau monitro
- Pan fyddwch yn siarad â ni ar y ffôn, anfon e-bost neu anfon llythyr atom
- Pan fyddwch yn defnyddio ein gwefan
- Mewn e-byst a llythyrau
- Pan fyddwch yn ymrwmo i gontract gyda ni
- Mewn hawliadau yswiriant neu ddogfennau eraill

Data rydym yn ei gasglu pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau:

- Proffil ar-lein a data defnydd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cwcis pan fyddwch yn cyrchu ein gwefan.
- Data Ceisiadau Cynllunio
- Nodiadau ffeil achos o gyfarfodydd

Data gan drydydd partiön rydym yn gweithio gyda nhw:

- Sefydliadau sy'n eich cyfeirio atom
- Partneriaid prosiect
- Yswirwyr
- Rhwydweithiau cymdeithasol
- Asiantaethau atal twyll
- Asiantau tir
- Ffynonellau gwybodaeth gyhoeddus fel Tŷ'r Cwmnïau
- Asiantau sy'n gweithio ar ein rhan
- Llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith.
- Awdurdodau Lleol

Rhesymau priodol (sail gyfreithlon) dros ddefnyddio eich data personol

Bydd y wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei phrosesu yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU, Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Mae cyfraith Diogelu Data yn dweud ein bod yn cael defnyddio gwybodaeth personol dim ond os oes gennym reswm priodol (sail gyfreithlon) i wneud hynny.

Mae'r sail gyfreithlon y dibynnir arni ar gyfer ceisiadau cynllunio ac i gyflawni swyddogaethau cynllunio'r Awdurdod yn cynnwys:

- I gyflawni Tasg Gyhoeddus sy'n ymwneud â dyletswyddau cyhoeddus a rheoleiddio Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- I gyflawni contract sydd gennym gyda chi, neu
- Pan fydd yn ddyletswydd gyfreithiol i ni, neu
- Pan fydd er ein buddiant dilys, neu
- Pan fyddwch yn cydsynio iddo.

Buddiant dilys yw pan fydd gennym reswm busnes neu fasnachol i ddefnyddio eich gwybodaeth nad yw'n gysylltiedig â'n dyletswyddau cyhoeddus a rheoleiddiol fel Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Mae rhesymau ychwanegol (sail gyfreithlon) y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu bodloni wrth brosesu data categori arbennig a allai gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol neu aelodaeth o undeb llafur a phrosesu data genetig neu fiometrig, iechyd a bywyd rhywiol a chyfeiriadedd rhywiol.

Rydym yn prosesu'r math hwn o ddata categori arbennig fel sy'n angenrheidiol am resymau:

- Erthygl 9(2)(g) Buddiant cyhoeddus sylweddol yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Y wybodaeth a gasglwn amdanoch, y sail gyfreithlon ac at beth y caiff ei defnyddio

Defnyddwyr Gwasanaeth, Cwsmeriaid a Phartneriaid – Cynllunio

Ar gyfer beth rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol	Ein rhesymau (sail gyfreithlon)	Ein tasgau cyhoeddus neu fuddiant dilys
Prosesu ceisiadau cynllunio, datblygiadau a ganiateir ac apelïadau cynllunio	Ein tasg gyhoeddus Ein rhwymedigaethau cyfreithiol Buddiant dilys	Cyflawni dyletswyddau cynllunio'r Awdurdod
Prosesu adroddiadau monitro a gwybodaeth gysylltiedig arall sy'n angenrheidiol i weinyddu swyddogaethau cynllunio'r Awdurdod	Ein tasg gyhoeddus Ein rhwymedigaethau cyfreithiol Buddiant dilys	Cyflawni dyletswyddau cynllunio'r Awdurdod
Cadw mewn cysylltiad a cheisio adborth am y gwasanaeth a ddarparwn	Ein tasg gyhoeddus Ein rhwymedigaethau cyfreithiol Buddiant dilys	Rheoli perthnasoedd parhaus a gwella gwasanaethau
Ceisio sylwadau am resymau Polisi Cynllunio, er enghraifft y Cynllun Datblygu Lleol	Ein tasg gyhoeddus Ein rhwymedigaethau cyfreithiol Buddiant dilys	Y cyhoedd yn cael cyfle i ddylanwadu ar bolisi cynllunio lleol. Cyflawni rhwymedigaethau cyflawni cytundeb
Ymchwilio i achosion honedig o dorri rheolau cynllunio	Ein tasg gyhoeddus Ein rhwymedigaethau cyfreithiol Buddiant dilys	Cyflawni dyletswyddau cynllunio'r Awdurdod
Prosesu Ffioedd cynllunio – gan gynnwys cysylltu â chi os oes angen	Contract Ein rhwymedigaethau cyfreithiol Buddiant dilys	Prosesu ffioedd cynllunio yn effeithiol.
Gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer gofynion archwilio ariannol a pherfformiad	Ein rhwymedigaethau cyfreithiol	Cyflawni dyletswyddau cynllunio'r Awdurdod
Cyflawni ein rhwymedigaethau sy'n deillio o unrhyw gontractau yr ymrwymwyd iddynt gennych chi a ninnau (o dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990)	Cyflawni contractau	Cyflawni dyletswyddau cynllunio'r Awdurdod
Prosesu a chofnodi Gwrthwynebiadau cynllunio	Ein tasg gyhoeddus Ein rhwymedigaethau cyfreithiol Buddiant dilys	Cyflawni dyletswyddau cynllunio'r Awdurdod
Prosesu Taliadau – gan gynnwys cysylltu â chi os oes angen	Contract Ein rhwymedigaethau cyfreithiol	Prosesu taliadau yn effeithiol

	Buddiant dilys	
Rheoli ein perthynas â chi neu'ch busnes	Buddiant dilys Ein rhwymedigaethau cyfreithiol Buddiant dilys	Perthnasoedd effeithiol rhwng cyflenwyr, cwsmeriaid a chontractwyr
Cyflawni ein rhwymedigaethau sy'n deillio o unrhyw gontractau yr ymrwymir iddynt gennych chi a ninnau	Cyflawni contractau	Cyflawni dyletswyddau cynllunio'r Awdurdod
Lluniau yn ymwneud â cheisiadau cynllunio, gwrthwynebiadau ac apeliadau	Ein tasg gyhoeddus Ein rhwymedigaethau cyfreithiol Buddiant dilys	Cyflawni dyletswyddau cynllunio'r Awdurdod
I'w adolygu a'i ystyried yng nghyfarfodydd mewnol y Pwyllgor	Ein tasg gyhoeddus Ein rhwymedigaethau cyfreithiol Buddiant dilys	Gwneud penderfyniadau mewn Pwyllgorau
<p>Cofnodi sgysiau ffôn i'r tîm gwasanaethau cwsmeriaid at ddibenion monitro a hyfforddi. Mae hyn yn berthnasol i alwadau sy'n mynd allan a/neu alwadau sy'n dod i mewn. Bydd recordiadau galwadau yn cael eu diffodd, pan roddir manylion eich cerdyn credyd neu ddebyd.</p> <p>Nodyn: Bydd pob recordiad yn cael ei ddileu ar ôl 30 diwrnod. Fodd bynnag, gellir ymestyn hyn mewn amgylchiadau lle mae'r recordiad yn angenrheidiol i gefnogi'r ymchwiliad i ddigwyddiad neu'n ofynnol fel tystiolaeth. Bydd neges yn egluro y gall yr alwad gael ei recordio yn cael ei chwarae ar ddechrau pob galwad ffôn a dderbyniwn. Os yw Swyddog yn gwneud galwad allan sy'n cael ei recordio, bydd yn hysbysu'r derbynnydd ar ddechrau'r alwad.</p>	Buddiant dilys	Sicrhau eich bod yn derbyn gwasanaeth o safon gennym ni; Ymchwilio i gŵyn a'i datrys; Diogelu lles a diogelwch personol ein staff e.e. oddi wrth alwyr sarhaus; Hyfforddi Staff Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Ymgynghorwyr Trydydd Parti, Cyflenwyr a Chontractwyr

Ar gyfer beth rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol	Ein rhesymau	Ein tasgau cyhoeddus neu fuddiant dilys
---	--------------	---

Asesu tendrau	Ein rhwymedigaethau cyfreithiol	Cyflawni dyletswyddau cynllunio'r Awdurdod
Gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer gofynion archwilio ariannol	Ein rhwymedigaethau cyfreithiol	Cyflawni dyletswyddau cynllunio'r Awdurdod

Ymgysylltu (gan gynnwys ar-lein) a Marchnata

Ar gyfer beth rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol	Ein rhesymau	Ein tasgau cyhoeddus neu fuddiant dilys
Dadansoddi ymweliadau â'n gwefan	<p>Caniatâd – Cwcis Trydydd Parti</p> <p>Nodyn: Mae cwcis personol yn angenrheidiol yn bennaf er mwyn i'r wefan weithredu yn y ffordd gywir, ac nid ydynt yn casglu dim o'ch data personol adnabyddadwy. Am ragor o wybodaeth gweler ein Polisi Cwcis.</p>	Ein galluogi i ddadansoddi a gwella profiad gwefan

Trefn Lywodraethol ac Atebolrwydd

Ar gyfer beth rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol	Ein rhesymau	Ein tasgau cyhoeddus neu fuddiant dilys
Prosesu ymholiadau, sylwadau, adborth a chwynion a gyflwynwch	Tasg gyhoeddus Rhwymedigaeth gyfreithiol Buddiant dilys	Cyflawni Dibenion Parc Cenedlaethol yr Awdurdod, safonau gwasanaeth a gofynion Rhyddid Gwybodaeth, Rheoleiddio Amgylcheddol a Mynediad Testun.

Deunydd Teledu Cylch Cyfyng

Rydym yn gweithredu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) mewn lleoliadau amrywiol o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mae ein teledu cylch cyfyng yn dal delweddau gweledol byw yn unig (nid oes unrhyw sain yn cael ei ddal gan ein teledu cylch cyfyng) a chedwir unrhyw recordiadau am gyfnod o 30 diwrnod. Fodd bynnag, gellir ymestyn hyn mewn amgylchiadau lle mae'r deunydd Teledu Cylch Cyfyng yn angenrheidiol i gefnogi'r ymchwiliad i ddigwyddiad neu'n ofynnol fel tystiolaeth.

Sylwch fod arwyddion clir wedi'u gosod yn ardaloedd APCAP sy'n cael eu monitro gan deledu cylch cyfyng.

Adolygir safleoedd camerâu yn flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gymesur â'u pwrpas. Lle na ellir cyfiawnhau'r diben mwyach yn erbyn yr ymyrraeth ar breifatrwydd personol, byddant yn cael eu dileu neu eu diffodd.

Bydd yr Awdurdod yn monitro ac yn ymateb i unrhyw bryderon neu gwynion y mae'n eu derbyn yn ymwneud â lleoliad camerâu a'u maes gwelediad. Lle na ellir cyfiawnhau'r safle a'r diben mwyach yn erbyn yr ymyrraeth ar breifatrwydd personol neu eiddo, byddant yn cael eu symud neu eu diffodd.

Ar gyfer beth rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol	Ein rhesymau	Ein tasgau cyhoeddus neu fuddiant dilys
<p>Diogelu staff, Aelodau, gwirfoddolwyr, ymwelwyr a'r cyhoedd o ran eu diogelwch personol.</p> <p>Atal ymddygiad treisgar neu ymosodol tuag at staff APCAP.</p> <p>Diogelu adeiladau ac offer yr Awdurdod, ac eiddo personol staff, Aelodau, gwirfoddolwyr, ymwelwyr a'r cyhoedd.</p> <p>Atal a chanfod trosedd yn ei safleoedd a chyfleusterau manwerthu a chynorthwyo i adnabod ac arestio troseddwr.</p> <p>Darparu tystiolaeth o ddifrod neu golled i gwmni yswiriant yr Awdurdod.</p>	<p>Buddiant Dilys</p> <p>Os cesglir data troseddau yn yr achosion hyn byddai cipio'r ddelwedd yn ymwneud â buddiant sylweddol y cyhoedd ac yn brawf o 10. atal a chanfod gweithredoedd anghyfreithlon ac 11.</p> <p>Diogelu'r Cyhoedd</p>	<p>Buddiant dilys o ran diogelu staff, Aelodau, gwirfoddolwyr, ymwelwyr ac aelodau'r cyhoedd o ran eu diogelwch personol.</p> <p>Atal ymddygiad treisgar neu ymosodol tuag at staff APCAP.</p> <p>Diogelu adeiladau ac offer yr Awdurdod, ac eiddo personol staff, Aelodau, gwirfoddolwyr, ymwelwyr a'r cyhoedd.</p> <p>Atal a chanfod trosedd yn ei safleoedd a chyfleusterau manwerthu a chynorthwyo i adnabod ac arestio troseddwr.</p> <p>Darparu tystiolaeth o ddifrod neu golled i gwmni yswiriant yr Awdurdod.</p>

Am ba hyd y cadwn eich gwybodaeth

Rydym yn adolygu ein cyfnodau cadw ar gyfer gwybodaeth bersonol yn rheolaidd. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni gadw rhai mathau o wybodaeth am gyfnod penodol o amser i gyflawni ein rhwymedigaethau statudol, er enghraifft cofnodion cynllunio, ariannol neu adnoddau dynol. Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol ar ein systemau neu ar ffeil am gyhyd ag sy'n angenrheidiol ar gyfer y gweithgaredd perthnasol, neu cyhyd ag y nodir mewn unrhyw gontract perthnasol sydd gennych gyda ni.

Gyda phwy ydyn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol

Gallwn rannu eich gwybodaeth bersonol yn fewnol ag adrannau perthnasol o fewn yr Awdurdod ond dim ond at ddibenion penodol.

Efallai y byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth bersonol yn allanol gyda thrydydd partïon eraill er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau cynllunio statudol ac anstatudol. Wrth wneud hynny rydym yn sicrhau bod diwydrwydd dyladwy priodol yn cael ei wneud a bod Cytundebau Prosesu neu Rannu Data ar waith. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau i drydydd parti at ddibenion marchnata.

Isod mae'r trydydd partïon y gallwn rannu eich gwybodaeth â nhw a'r rhesymau:

Trydydd Parti	Ein Rheswm
Cyllid a Thollau EF, Rheolyddion ac Awdurdodau eraill	Dibenion archwilio, canfod twyll a throseddau
Contractwyr neu Swyddogion Cyswllt cymeradwy sy'n gwneud gwaith ar ran yr Awdurdod	Er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Awdurdod mewn perthynas â Swyddogaethau Cynllunio neu ar gyfer rheolaeth weithredol a gweinyddiaeth barhaus yr Awdurdod.
Awdurdodau Lleol, Cyrff Proffesiynol, Asiantaethau neu Sefydliadau Eraill	Er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Awdurdod mewn perthynas â Swyddogaethau Cynllunio neu ar gyfer rheolaeth weithredol a gweinyddiaeth barhaus yr Awdurdod.
Agile Applications Cyf	Sef prosesydd data'r system gynllunio
Adrannau'r Llywodraeth neu drydydd partïon eraill sydd wedi darparu cyllid i'r Awdurdod	Bydd data personol perthnasol yn cael ei rannu gyda nhw os yw hyn yn amod o'r cyllid y maent yn ei ddarparu i'r Awdurdod
Pobl rydych yn cytuno i ni rannu eich data â nhw, gan gynnwys trydydd partïon fel Intuit Mailchimp yr ydym yn partneru â nhw i ddarparu ein gwasanaethau	Rydych wedi cydsynio i rannu data. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Intuit Mailchimp yn defnyddio'ch data, ewch i wefan Intuit Mailchimp (yn agor mewn ffenestr newydd) .
Y cyhoedd	<p>O dan ddeddfwriaeth gynllunio, mae'n ofynnol i ni sicrhau bod cofrestr ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio. Os ychwanegwch eich enw a'ch cyfeiriad ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall am eich cais cynllunio bydd yn cael ei rannu'n gyhoeddus drwy wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac mewn rhai amgylchiadau drwy hysbysiad ar y safle yn y cyfeiriad sydd angen caniatâd cynllunio. Efallai y bydd eich cais cynllunio hefyd yn cael ei gyhoeddi gyda phapurau newydd lleol.</p> <p>Os byddwch yn gwneud ymateb trydydd parti i gais cynllunio, bydd yn cael ei roi yn y ffeil gyhoeddus a gellir cyhoeddi crynodeb o'ch pwyntiau o fewn Adroddiad</p>

	<p>swyddog neu Bwyllgor. Mae'n bosibl y bydd fersiwn wedi'i golygu o'ch gohebiaeth yn destun ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a bydd ar gael i'w harchwilio fel rhan o ffeil gynllunio.</p> <p>Rhaid i chi roi gwybod i'r Adran Gynllunio am unrhyw wybodaeth nad ydych yn dymuno iddi gael ei chyhoeddi ar adeg cyflwyno'ch cais neu unrhyw apêl neu anghydfod neu wrthwynebiad i gais cynllunio.</p> <p>Mae cofnodion Cyfarfodydd Pwyllgor a recordiadau llif byw hefyd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Oherwydd natur y cyfarfodydd penderfynu hyn, gall cyfeiriadau at geisiadau cynllunio, apeliadau neu wrthwynebiadau gynnwys eich data personol.</p>
--	---

Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu a gall ddefnyddio'r data personol a ddarperir gennych chi, yn ogystal â thechnegau paru data, i ganfod ac atal twyll. Bydd yr Awdurdod hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a gall hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll neu archwilio/gweinyddu arian cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chost effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, gellir rhannu gwybodaeth ag adrannau mewnol eraill o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a chydag [Archwilio Cymru](#).

Bydd y wybodaeth bersonol rydym wedi'i chasglu gennych yn cael ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i wirio pwy ydych. Os canfyddir twyll, gellir gwrthod gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth penodol i chi. Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn ni a'r asiantaethau atal twyll hyn yn defnyddio'ch gwybodaeth, a'ch hawliau diogelu data, ar gael drwy fynd i: [CIFAS](#)

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll/trosedd neu archwilio/gweinyddu arian cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chost effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ag Archwilyr Mewnol Awdurdod Parc Cenedlaethol Cost Sir Benfro ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ([Hysbysiad Preifatrwydd Archwilio Cymru](#)).

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i wneud penderfyniadau awtomataidd

Ar hyn o bryd nid ydym yn defnyddio eich gwybodaeth i wneud penderfyniadau awtomataidd. Os bydd hyn yn newid yn y dyfodol byddwn yn diweddarau'r adran hon o'r hysbysiad.

Os byddwch yn dewis peidio â rhoi gwybodaeth bersonol

Efallai y bydd angen i ni gasglu gwybodaeth bersonol yn ôl y gyfraith, neu o dan delerau contract sydd gennym gyda chi.

Os byddwch yn dewis peidio â rhoi'r wybodaeth bersonol hon i ni, gallai ein gohirio neu ein hatal rhag cyflawni ein rhwymedigaethau. Gall hefyd olygu na allwn gyflawni tasgau sy'n ymwneud â gwasanaeth yr ydych yn bwriadu ei gyrchu.

Byddai unrhyw gasglu data sy'n ddewisol yn cael ei wneud yn glir ar y pwynt casglu.

Caniatâd a thynnu caniatâd yn ôl

Lle mae angen caniatâd unigol i brosesu gwybodaeth bersonol byddwn yn eich hysbysu. Yn gyffredinol, ni fydd caniatâd yn rhag-amod ar gyfer ymuno â gwasanaeth.

Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. Cysylltwch â ni os ydych am wneud hynny yn info@pembrokeshirecoast.org.uk neu'r tîm perthnasol o fewn yr Awdurdod y gwnaethoch roi caniatâd iddynt.

Os byddwch yn tynnu eich caniatâd yn ôl, efallai na fyddwn yn gallu darparu gwybodaeth neu wasanaethau penodol i chi. Yn yr achos hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Sut i gael copi o'ch gwybodaeth bersonol

Gallwch gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol sydd gennym drwy ysgrifennu atom i'r cyfeiriad isod:

Rheolwr Gweinyddol a Gwasanaethau Democrataidd
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â: info@pembrokeshirecoast.org.uk , Ffôn: 01646 624800.

Rhoi gwybod i ni os yw eich gwybodaeth bersonol yn anghywir

Os ydym yn cadw gwybodaeth amdanoch, gallwch ofyn i ni gywiro unrhyw gamgymeriadau drwy gysylltu â ni yn info@pembrokeshirecoast.org.uk, ein ffonio ar 01646 624800, ysgrifennu atom neu gysylltu â'r tîm perthnasol o fewn yr Awdurdod y gwnaethoch ddarparu'r wybodaeth iddynt. Byddwn yn cymryd camau rhesymol i wirio cywirdeb y data sydd gennym a'i gywiro.

Beth os ydych am i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol?

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, neu i ofyn i ni ddileu, tynnu, neu roi'r gorau i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol os nad oes angen i ni ei chadw.

Gall fod rhesymau cyfreithiol neu swyddogol eraill pam fod angen i ni gadw neu ddefnyddio eich data. Ond dywedwch wrthym os credwch na ddylem fod yn ei ddefnyddio.

Efallai y byddwn weithiau'n gallu cyfyngu ar y defnydd o'ch data. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar gyfer rhai pethau y gellir ei ddefnyddio, megis hawliadau cyfreithiol neu i arfer hawliau cyfreithiol. Yn y sefyllfa hon, ni fyddem yn defnyddio nac yn rhannu eich gwybodaeth mewn ffyrdd eraill tra ei bod yn gyfyngedig.

Gallwch ofyn i ni gyfyngu ar y defnydd o'ch gwybodaeth bersonol os:

- Nad yw'n gywir
- Mae wedi cael ei defnyddio'n anghyfreithlon ond nid ydych am i ni ei ddileu
- Nid yw'n berthnasol mwyach, ond rydych am i ni ei chadw i'w defnyddio mewn hawliadau cyfreithiol
- Rydych chi eisoes wedi gofyn i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch data ond rydych chi'n aros i ni ddweud wrthy'ch os ydym yn cael parhau i'w ddefnyddio.

Os ydych am wrthwynebu sut rydym yn defnyddio eich data, neu ofyn i ni ei ddileu neu gyfyngu ar sut rydym yn ei ddefnyddio neu, cysylltwch â ni yn DPO@pembrokeshirecoast.org.uk.

Cwcis

Fel y rhan fwyaf o'r gwasanaethau ar-lein, mae ein gwefan yn defnyddio cwcis personol a thrydydd parti at nifer o ddibenion. Mae'r cwcis personol yn angenrheidiol yn bennaf er mwyn i'r wefan weithredu yn y ffordd gywir, ac nid ydynt yn casglu dim o'ch data personol adnabyddadwy.

Mae'r cwcis trydydd parti a ddefnyddir ar ein gwefannau yn cael eu defnyddio'n bennaf i ddeall sut mae'r wefan yn perfformio, sut rydych chi'n rhyngweithio â'n gwefan, cadw ein gwasanaethau'n ddiogel, darparu hysbysebion sy'n berthnasol i chi, ac ar y cyfan yn darparu gwell profiad y defnyddiwr a helpu i gyflymu eich rhyngweithio â'n gwefan yn y dyfodol.

Gallwch reoli eich dewisiadau cwcis trwy glicio ar y botwm "Gosodiadau cwcis" a galluogi neu analluogi'r categorïau cwcis ar y ffenestr naid yn unol â'ch dewisiadau. Fel arall, mae'r rhan fwyaf o borwyr gwe yn caniatáu rhywfaint o reolaeth ar y rhan fwyaf o gwcis trwy osodiad y porwr.

Darperir rhagor o wybodaeth yn ein [Polisi Cwcis](#).

Anfon data y tu allan i'r DU

Byddwn ond yn anfon eich data y tu allan i'r DU i:

- Gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol
- Neu, pan fydd proseswyr data rydym yn eu defnyddio yn anfon data y tu allan i'r DU, ond mae ganddynt fesurau diogelu perthnasol ar waith.

Os ydym ni, neu brosesydd a ddefnyddiwn, yn trosglwyddo gwybodaeth y tu allan i'r DU, byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei diogelu yn yr un modd â phe bai'n cael ei defnyddio yn y DU. Byddwn yn defnyddio un o'r mesurau diogelu hyn:

- Sicrhau bod y derbynnydd wedi'i leoli yn yr AEE (Ardal Economaidd Ewropeaidd), neu drydedd wlad neu diriogaeth neu'n sefydliad rhyngwladol, sy'n dod o dan 'reoliadau digonolrwydd' y DU.
- Sefydlu contract gyda'r derbynnydd sy'n golygu bod yn rhaid iddo ei ddiogelu i'r un safonau â'r DU.

Sut i wneud cwyn

Rhowch wybod i ni os ydych yn anhapus gyda sut rydym wedi defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Cysylltwch â'n swyddog diogelu data yn DPO@pembrokeshirecoast.org.uk neu 01646 624800

Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Darganfyddwch ar eu gwefan sut i roi gwybod am [bryder](#). Rhif y llinell gymorth yw 0303 123 1113.